# Rogiet: O Amgylch Rogiet a'r Rheilffyrdd

## Cyfres Llwybrau Treftadaeth Glan Hafren








land & legends

MONMOUTHSHIRE'S CULTURAL HERITAGE
TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL SIR FYNWY



Eglwys y Santes Fair, Rogiet

# O Amgylch Rogiet a'r Rheilffyrdd

Arferai Cymuned Roggiett gynnwys tri phlwyf – Llanfihangel, Ifton a Rogiet. Cofnodwyd yr enw cyfredol, Rogiet, yn y ddeuddegfed ganrif, ond ymddengys 'Roggiett' ar ddogfennau yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif. Newidiwyd y sillafiad cyfredol gan y Post Brenhinol tua 1955.

## Rheilffyrdd

Cafwyd y prif ddatblygiad tai yn Roggiett ac Ifton rhwng tua 1920 a 1940 er mwyn darparu cartrefi i deuluoedd ar ôl datblygu ierdydd trefnu, siediau peiriannau, gweithiau wagen a gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren. Cynyddodd nifer y tai yn ddramatig er mwyn darparu cartrefi iddynt oll, ond bellach dim ond llond dwrn o weithwyr rheilffordd sydd i'w cael.



Melin Wynt Rogiet

Mae Parc Hamdden Cefn Gwlad Rogiet Ⓐ wedi'i adeiladu ar dir a adferwyd o safle ierdydd trefnu Cyffordd Twnnel Hafren ar ôl cau 'Y Rheilffordd' ym 1987. Bellach mae'r dopoleg sydd wedi'i cherflunio'n broffesiynol yn cynnig llwybrau cerdded gyda golygfeydd cyfeiriadol, adran ar gyfer marchogaeth ceffylau a nifer o arweddion dŵr.

Wrth i chi gerdded o amgylch y llwybr byddwch yn croesi gweddillion arglawdd Ⓑ lle adeiladwyd llinell rheilffordd y chwarel; fe'i defnyddiwyd yn bennaf i gludo balast trac rheilffordd o Chwarel Ifton Ⓒ i'r brif linell rheilffordd.



Bolyn Totem, Cwrs Golff Llanddewi

Cloddiwyd tua ¾ miliwn tunnell o gerrig yma er mwyn adeiladu Man Casglu Tollau'r M4 a rhannau o Ail Bont Hafren. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel lleoliad ar gyfer penodau o gyfres Survivor y BBC ym 1975; ac mewn adran fawr y gellir ei gorlifo, mae cwmnïau ffilm hefyd wedi creu setiau ar gyfer ffug frwydrau ar y môr ac amryw ddilyniannau morlun. Parchwch y ffaith fod y chwarel yn eiddo preifat os gwelwch yn dda, ni ddylid mynd i fewn.

Yn ei 'neuadd farchnad' arferai Gwesty Roggiett Ⓘ (a adeiladwyd ym 1888) ddarparu ar gyfer niferoedd mawr o'r gymuned ffermio a fyddai'n mynychu'r hen farchnad gwartheg. Oherwydd ei bod yn agos at y rheilffordd gallai trenau gwartheg gludo stoc i amryw leoliadau yn y DU.

## Yma ac acw

Mae enw Llanddewi, pentrefan Dewi, yn tarddu o enw'r eglwys a arferai sefyll ar ystâd Llanddewi. Roedd gerddi a grotos cudd Llanddewi Ⓓ, a adeiladwyd tua 1900, yn hobi i Mr Henry Oakley, garddwr brwd. Ar ôl ei farwolaeth ym 1940



Gerddi cudd a Grotos Dewstow

cafodd y prosiect ei esgeuluso, ond mae'r perchnogion newydd, y Teulu Harris, wedi ailadeiladu'r cynllun gwreiddiol a'i agor i ymwelwyr.

Wrth i chi basio Cwrs Golff Llanddewi, edrychwch am Bolyn Totem Ⓔ. Fe'i cerfiwyd o Goeden Goch Secwoia Americanaidd, ac mae'r campwaith 50 troedfedd unigryw hwn yn darlunio gêm o golff a hanes lleol. Fe'i crëwyd gan adeiladwr lleol a oedd wedi ymddeol, ac ar un adain mae arysgrif er cof am ei wraig.

Ychydig oddi ar y prif lwybr mae enghraifft o graffiti coed Ⓕ. Yr artistiaid honedig oedd milwyr Pwyleg a oedd wedi'u lleoli yn




Enghraifft o graffiti coed

yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r cerfiadau o barasiwtwyr wedi'u lleoli'n weddol uchel ar y ddwy goeden ffawydd ac yn weddol anodd eu gweld!

Melin Wynt Rogiet Ⓖ yw'r gweddillion olaf o'r melinau tyrrau bach yn Sir Fynwy. Wedi'i leoli'n strategol ar ben y bryn yn edrych dros Foryd Hafren, yn ôl pob tebyg roedd yr adeilad rhestredig hwn o'r unfed ganrif ar bymtheg yn cael ei ddefnyddio unwaith fel tŵr gwylio gyda'i olygfa eang dros Foryd Hafren.

Clwstwr rhestredig o adeiladau fferm Ⓗ gydag Eglwys Ganoloesol Sant Mihangel a'r Holl Angylion sydd bellach wedi cau. Fe grybwyllir yr adeilad yn Llyfr Domesday, ac mae'n cynnwys pensaernïaeth y drydedd ganrif ar ddeg yn bennaf gydag estyniadau yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Bôn croes canoloesol y fynwent yw un o'r strwythurau gorau o'i math sydd wedi goroesi.

Credir bod Lôn Minnetts Ⓙ wedi cael ei defnyddio gan Borthmyn wrth gludo stoc i lawr o'r rhostiroedd ffrwythlon. Mae pwysigrwydd y rhostir yn dyddio'n ôl i gyfnod y Rhufeiniaid, pan grëwyd sylfaen y system ddraenio sy'n darparu'r tir pori ffrwythlon heddiw.

Yn wreiddiol hwn oedd safle *Tir y Tlawd Rogiet* Ⓚ, a dyma'r ardal a neilltuwyd i'r "tlawd" dyfu bwyd. Mae rhan o'r safle bellach yn llwybr cerdded hamdden sy'n berchen i Ymddiriedolaeth Natur Gwent. Ar yr ochr arall ac ychydig yn is na'r fynedfa i deithiau cerdded tir y tlawd oedd ffynnon, a elwir yn lleol yn "Ffynnon Sipsi" gan yr arferai teithwyr sipsi ddefnyddio'r ardal. Yn ôl yr hanes llosgwyd Carafán Sipsi traddodiadol a oedd yn berchen i Frenhines Sipsi ar y safle ar ôl ei marwolaeth.

Am fanylion llety yn yr ardal ewch i
**www.greenbeds.adventa.org.uk**

Mae'r daflen hon wedi ei ariannu gan adventa, rhaglen datblygu wledig LEADER+ Sir Fynwy a noddir gan Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Fynwy. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.adventa.org.uk**

Darparwyd y cynnwys gan is-grŵp Treftadaeth Fforwm Ardal Glan Hafren. Bwriad Fforwm Ardal Glan Hafren yw hybu gweithredu yn y gymuned drwy gynrychiolaeth a gweithgaredd ymarferol.

Mae'r grŵp yma wedi derbyn cymorth datblygu cymunedol drwy Gweithredu dros Gymunedau Gwledig. Ariennir a hwylusir Gweithredu aros Gymunedau Gwledig gan Llwyodraeth cynulliad Cymru. www.monmouthshire-rca.org.uk

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all adventa dderbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am golled neu niwed yn sgil y cyhoeddiad hwn. Ni allwn chwaith fod yn atebol am golled, anaf neu niwed a ddigwydd i unrhyw un sy'n ymweld neu'n cerdded ar y llwybr.

Ewch at **www.monmouthshire.gov.uk** am fwy o deithiau cerdded yn yr ardal.

## Diolchiadau

CADW, Chepstow Museum, Dewstow Golf Club.

Designed and produced by Mediadesign 01874 730748

# Rogiet: Around Rogiet and the Railways

## Severnside Heritage Trail Series








land & legends
MONMOUTHSHIRE'S CULTURAL HERITAGE
TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL SIR FYNWY



St Marys Church, Rogiet

## Around Rogiet and the Railways

The Community of Rogiet was made up of three parishes– Llanfihangel, Ifton and Roggiett. The present name of Rogiet was recorded in the 12th Century, but 'Roggiett' appears on documents early in the 18th Century. The present spelling was changed by the Royal Mail c1955.

## Railways

The main housing development took place in Roggiett and Ifton from about 1920 until 1940 to accommodate families following the development of the Severn Tunnel Junction marshalling yards, engine sheds, wagon works and station. Properties increased dramatically to accommodate them. Now there are only a handful of railway workers remaining.

The Rogiet Countryside Leisure Park Ⓐ is constructed on land reclaimed from the site of the Severn Tunnel Junction marshalling yards following closure of 'The Railway' in 1987. Now the professionally sculptured topology provides walks with directional vistas, a section for horse riding and several water features.

As you walk around the trail you will cross by the remains of the embankment Ⓑ on which the quarry railway line was constructed; mainly used to transport railway track ballast from Ifton Quarry Ⓒ to the main railway line.



Rogiet Windmill



Totem Pole at Dewstow Golf Course

Around ¾ million ton of stone were quarried here for the construction of the M4 Toll Plaza and parts of the Second Severn Crossing. It was also used as a location for episodes of the 1975 BBC series Survivor; and in a large section that floods, film companies have created sets for mock sea battles and various seascape sequences. Please respect the quarry is private property and should not be entered.

In its 'market hall' the nearby Roggiett Hotel Ⓘ(built 1888) once catered for the large numbers of the farming community attending the old cattle market. Being close to the railway meant that cattle trains were able to convey stock to various destinations in the UK.

## Around and About

Dewstow - from Dewi's Stow - the hamlet of Dewi (David) takes its name from the church which once stood on the Dewstow estate. The Dewstow hidden gardens and grottos Ⓓ, constructed circa 1900, were the hobby of Mr Henry Oakley a keen horticulturalist. After his death in 1940 the project was neglected. The new owners, the Harris Family, have reconstructed the original design and opened it up to visitors.



Dewstow hidden Gardens and Grottoes

As you pass Dewstow Golf Course, look for the Totem PoleⒺ. Carved from a dead Great American Redwood Sequoia, this unique 50ft masterpiece depicts the game of golf and local history. This was created by a local retired builder, and carries an inscription on one wing in memory of his wife.

Just off the main trail path is an example of tree graffitiⒻ. The alleged artists were Polish




Tree graffiti

servicemen stationed in the area during World War II. The carvings of parachutists are located quite high up on two beech trees, so will take some finding!

The Rogiet Windmill G is the last surviving remains of small tower mills in Monmouthshire. Strategically located at the top of the hill overlooking the Severn Estuary, this 16th Century listed building was probably once used as a watchtower with its wide view overlooking the Severn Estuary.

A listed cluster of farm buildings H with the Medieval Church of St Michael and All Angels now closed. Mentioned in the Domesday Book, the structure consists mainly of 13th Century architecture with 14th Century extensions. The medieval churchyard cross base is one of the best remaining structures of its kind.

The Minnetts Lane J is believed to have been used by Drovers bringing stock down to the fertile moorlands. The importance of the moorland dates back to Roman times, when they created the basis of the drainage system that provides today's fertile pastureland.

Originally the site of the *Rogiet Poor Land* K, this was the area designated for the "poor" to grow food. Part of the site is now a recreational walk owned by Gwent Wildlife Trust. On the opposite side and just below the entrance to the poor land walks was a well, known locally as "Gypsy Well" as it was an area where gypsy travellers used to stay. The story goes that a traditional Gypsy Caravan belonging to a Gypsy Queen was burned on the site after her death.

For details of accommodation in the area visit **www.greenbeds.adventa.org.uk**

This leaflet has been funded by Adventa, Monmouthshire's LEADER+ rural development programme funded by the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund, the Welsh Assembly Government and Monmouthshire County Council. For more information visit **www.adventa.org.uk**

Content has been provided by the Heritage Sub-group of the Severnside Area Forum. The Severnside Area Forum exists to promote community action through representation and practical activity.

This group has received community development support through Rural Community Action. Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government. www.monmouthshire-rca.org.uk

Whilst every effort is made to ensure accuracy, Adventa cannot accept any liability whatsoever for any loss or damage arising in any way from this publication. Nor can they be held liable for any loss, injury or damage sustained by anyone visiting or walking the trail.

Visit **www.monmouthshire.gov.uk** for more walks in the area.

## Acknowledgements

CADW, Chepstow Museum, Dewstow Golf Club.

Designed and produced by Mediadesign 01874 730748




Circular walks of **?km**

The walks take between **2-3 hours**

Ordnance Survey maps: **OS Explorer EXP154**

Grid reference at start point: **ST873461**

This walk may have limited access in certain places and therefore may not be suitable for the less mobile.

## Busnesau / Businesses

1. Clwb Golff Dewstow - **01291 430444**
   Dewstow Golf Club
2. Gerddi a Grotos Dewstow - **01291 430444**
   Dewstow Gardens and Grottoes
3. Garej a Siopau Washbourne - **01291 424334**
   Washbournes Garage & Stores
4. Siopau min y fford - **01291 430428**
   a Swyddfa Bost - **01291 420230**
   Roadside Stores
   & Post office
5. Gwely a Brecwast Ffermdy - **01633 880232**
   Farmhouse B&B

Trail Route

Bus stop

Viewpoint

Train Station

Church

## Cludiant Cyhoeddus / Public Transport

Bysiau / Buses: **X14, X74**

Trenau / Train: **Gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren**
**Severn Tunnel Junction**

**Countryside Code.** Please respect property and livestock when walking footpaths. Leave gates and property as you find them and dispose of rubbish appropriately. Take particular care to avoid road hazards. Thank you.

**Rheolau Cefn Gwlad.** Byddwch cystal â pharchu eiddo a da byw wrth gerdded ar lwybrau troed. Caewch gatiau a gwaredwch ar ysbwriel yn briodol. Cymerwch ofal arbennig i osgoi perygl ar yr heol. Diolch.